



Swyddfa Gartref

Integreiddio ffoaduriaid

Beth sy'n gweithio? Beth all weithio? Beth sydd ddim yn gweithio? Crynodeb o'r dystiolaeth Argraffiad Cymraeg

Mehefin 2019

Joseph Coley, Y Swyddfa Gartref

Marie Godin, Prifysgol Birmingham

Linda Morrice, Prifysgol Sussex

Jenny Phillimore, Prifysgol Birmingham

Carolyne Tah, Y Swyddfa Gartref



© Hawlfraint y Goron 2019

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. Er mwyn gweld y drwydded ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn indicatorsofintegration@homeoffice.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Beth sy'n gweithio wrth integreiddio ffoaduriaid?	5
Cyfeiriadu diwylliannol	5
Sgiliau iaith yn rhan hanfodol o integreiddio ffoaduriaid a'u llesiant	5
Cysylltiadau cymdeithasol o safon uchel yn hyrwyddo integreiddio	6
Gall partneriaethau rhwng sefydliadau cymunedol ffoaduriaid mudol a sefydliadau eraill hyrwyddo newid cadarnhaol ac integreiddio	6
Prosiectau integreiddio effeithiol yn cael eu teilwrio yn ôl anghenon y ffoaduriaid ac yn cynnwys buddsoddiad tymor- hir	6
Beth sy'n gweithio wrth integreiddio ffoaduriaid?	8
Prosiectau sy'n hawdd eu haddasu, wedi eu datblygu o arfer gorau, wedi eu dylunio ar y cyd, eu cyd-gyflwyno a'u gwerthuso yn effeithiol	8
Canolbwyntio ar y gymuned	8
Datblygu arweinwyr mewn cymunedau o ffoaduriaid	9
Cydabod anghenion gwahanol grwpiau mudol	9
Angen strategaethau ar y lefel genedlaethol a lleol i hwyluso integreiddio	10
Strategaethau sy'n hwyluso mynediad grwpiau mudol at y farchnad lafur	11
Presenoldeb aelodau o'r teulu yn hwyluso integreiddio	13
Cefnogi iechyd corfforol a seicolegol y mudwyr a lleihau'r amser a dreulir yn y ddalfa	13
Beth sydd ddim yn gweithio wrth integreiddio ffoaduriaid?	14
Diffyg cefnogaeth i sefydliadau cymunedol o ffoaduriaid mudol	14
Peidio â chydabod integreiddio fel proses holistaidd a thymor hir	14
Cyfeiriadau	
Darllen Pellach	

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r dystiolaeth sy'n bodoli am integreiddio ffoaduriaid. Mae'n defnyddio'r ymchwil diweddaraf gan academyddion a'r ymchwil a gynhaliwyd gan Dadansoddi Mudo a Ffiniau yn y Swyddfa Gartref.

Beth sy'n gweithio wrth integreiddio ffoaduriaid?

Cyfeiriadu diwylliannol

- Ar gyfer ffoaduriaid sy'n cael eu hailgartrefu, bydd gwaith paratoi cyn gadael yn hwyluso integreiddio trwy atal camddealltwriaeth a hybu syniad realistig o'r gymuned fydd yn eu derbyn, ei disgwyliadau ar gyfer ffoaduriaid, y problemau tebygol a sut y gall y rhain gael eu goresgyn (UNHCR, 2002). Mae disgwyliadau afrealistig, ac felly fylchau mawr rhwng disgwyliadau a'r sefyllfa wirioneddol y mae'r mudwyr yn cael eu hunain ynnddi, yn arwain at lesiant gwaelach (Collyer *et al.*, 2018).
- Bydd gwaith cyfeiriadu safonol ar ôl cyrraedd yn ddefnyddiol hefyd i atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd cyn cyrraedd a sicrhau bod rhannu gwybodaeth yn gyson (Y Swyddfa Gartref, 2019a).
- Mae enghreifftiau hefyd o weithdai sy'n rhoi gwybodaeth ddiwylliannol allweddol am gymunedau o ffoaduriaid sy'n cael eu cyflwyno i gefnogwyr cymunedol fel rhan o'r cynllun cefnogi cymunedol (<https://unitedkingdom.iom.int/integration>).

Sgiliau iaith yn rhan hanfodol o integreiddio ffoaduriaid a'u llesiant

- Rhaglenni iaith sydd wedi eu teilwrio i anghenion amrywiol ffoaduriaid sydd fwyaf effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd dysgu anffurfiol i'r rhai â chefnidir addysgol cyfyngedig a rhaglenni llwybr cyflym i'r rhai gyda gwell sgiliau (Morrice, Tip, Collyer, a Brown, 2019).
- Ffoaduriaid â sgiliau iaith gwael sydd mewn mwyaf o berygl o ddioddef cael eu hallgau a dibyniaeth tymor hir (Collyer *et al.*, 2018).
- Mae sgiliau iaith yn allweddol i gael gwaith. Canfu ymchwil yn yr Almaen, bod gallu canolradd o ran iaith gynhenid yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd ffoaduriaid yn cael gwaith yn sylweddol (Degler a Liebig, 2017).
- Dengys ymchwil y gall sgiliau iaith gwell arwain at fwy o gyswllt gyda chymunedau eraill a gwella llesiant y ffoaduriaid (Tip *et al.*, 2018). Gall hyn hwyluso cydlynid cymunedol.
- O ystyried pwysigrwydd sgiliau iaith ar gyfer integreiddio (gan gynnwys trwy fynediad at wasanaethau ac addysg) (Collyer *et al.*, 2018), argymhellir y dylai mynediad at ddsbarthiadau a gweithgareddau integreiddio gychwyn cyn gynted â phosibl ar ôl cyrraedd (Degler a Liebig, 2017; OECD, 2016).
- Mae dosbarthiadau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) gyda chymysgedd o genhedloedd yn arbennig o effeithiol ar gyfer datblygu sgiliau iaith gwell gan fod ffoaduriaid yn cyfarfod pobl o wahanol gymunedau a diwylliannau, gan roi cyfle iddynt sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol ac ymarfer Saesneg tu allan i'r dosbarth (Morrice *et al.*, 2017). Mae datblygu sgiliau Saesneg anffurfiol o'r fath yn debygol o hyrwyddo datblygu sgiliau iaith ffoaduriaid yn gyflym.
- Gall hyfforddiant iaith galwedigaethol hwyluso integreiddio i'r farchnad lafur. Ceir un enghraifft o hyfforddiant o'r fath yn Sweden, lle mae hyfforddiant iaith yn cael ei ddarparu i bobl o wledydd eraill sydd â graddau/profiad proffesiynol o'u gwlad wreiddiol. Ychwanegir at yr hyfforddiant iaith trwy:
 - hyfforddiant ar sut mae'r proffesiwn yn cael ei drefnu yn Sweden; a
 - sut i ganfod eu ffordd trwy'r farchnad lafur yn Sweden yn eu maes.

Un i ddwy flynedd ar ôl gorffen y rhaglen, roedd wyth allan o ddeg o gyn-fyfyrrwyr yn hunangynhaliol (EMN, 2016).

Cysylltiadau cymdeithasol o safon uchel yn hyrwyddo integreiddio

- Dengys gwaith ymchwil bod cysylltiad positif rhwng ansawdd rhwydweithiau cymdeithasol o fewn a rhwng cymunedau, ac ar draws cenhedloedd, a llesiant cyffredinol y ffoaduriaid (Collyer *et al.*, 2018). Mae rhwydweithiau cymdeithasol yn hwyluso mynediad at wasanaethau iechyd a lles, cefnogaeth ariannol ac emosiynol a hefyd yn lleihau teimladau o unigrwydd ac iselder (Cheung a Phillimore, 2016; Spicer, 2008).
- Mae hyfforddiant sylfaenol a gwirfoddol yn llwybrau i greu cysylltiadau sy'n helpu i wella sgiliau iaith a mynediad at wasanaethau (Phillimore, 2012). Mae enghreifftiau hefyd o lunio cysylltiadau wedi eu noddi gan y wladwriaeth. Er enghraifft mae Antwerp yn cynnig cymhorthdal rhent i bobl leol sy'n byw gyda newydd-ddyfodiaid (<https://www.uia-initiative.eu/en/uia-cities/antwerp>).

Gall partneriaethau rhwng sefydliadau cymunedol ffoaduriaid mudol a sefydliadau eraill hyrwyddo newid cadarnhaol ac integreiddio

- Gall sefydliadau cymunedol ffoaduriaid mudol helpu i hyrwyddo newid mewn sefydliadau eraill, gan eu cefnogi i wneud eu gwasanaethau yn fwy cyfeillgar i ffoaduriaid. Gall ffyrdd newydd o weithio hefyd ddod trwy bartneriaethau o'r fath a all helpu i greu arloesedd (Phillimore, 2012).
- Gall hyfforddi sefydliadau cymunedol ffoaduriaid am ddewisiadau tai a marchnadoedd tai, gan hyfforddi darparwyr ar yr un pryd am anghenion tai ffoaduriaid, wella mynediad ffoaduriaid at dai addas (Mullins, 2008). Mae cysylltiad positif rhwng bodlonrwydd ar dai a llesiant (Collyer *et al.*, 2018).

Prosiectau integreiddio effeithiol yn cael eu teilwrio yn ôl anghenon y ffoaduriaid ac yn cynnwys buddsoddiad tymor- hir

- Mae cymryd rhan mewn prosiectau integreiddio yn cael effaith gadarnhaol ar hunan-barch ymatebwyr. Mae sgysiau wyneb yn wyneb a phrofiad mudwyr yn offer recriwtio grymus. Gall cydweithio gyda sefydliadau a rhanddeiliaid eraill hefyd helpu i roi hwb i recriwtio.
- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhaglenni yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn cael eu teilwrio i ffoaduriaid, er enghraifft, wrth ystyried:
 - presenoldeb neu absenoldeb rhwydweithiau teuluol neu gysylltiadau yn y Deyrnas Unedig yn barod;
 - cyflwr eu hiechyd meddyliol a chorfforol;
 - eu gallu i siarad Saesneg;
 - eu cymwysterau blaenorol; ac
 - eu profiad o waith.

Mae'r ffactorau yma yn effeithio ar bob agwedd o integreiddio ffoaduriaid (Collyer *et al.*, 2018; Cheung a Phillimore, 2014).

- Mae integreiddio yn gofyn am fuddsoddiad tymor hir.

- Bydd rhai agweddau ar integreiddio (tai, er enghraifft) yn nodau ar unwaith. Bydd eraill yn rhai mwy tymor canolig (gwaith er enghraifft) i dymor hir (perchenogaeth cartref er enghraifft) (Hart a Johnson, 2016).
- Rhaid i brosiectau gael amser i ymsefydlu, cynyddu ymddiriedaeth a chreu rhwydweithiau rhwng ffoaduriaid a sefydliadau lleol ac asiantaethau. Rhaid i ffoaduriaid a mudwyr gael amser i'w fuddsoddi yn eu sgiliau iaith Saesneg, addysg a hyfforddiant i osgoi ansicrwydd ac allgauedd (Collyer *et al.*, 2018).

Beth all weithio wrth integreiddio ffoaduriaid?

Prosiectau sy'n hawdd eu haddasu, wedi eu datblygu o arfer gorau, wedi eu dylunio ar y cyd, eu cyd-gyflwyno a'u gwerthuso yn effeithiol

- Bydd angen i brosiectau llwyddiannus addasu wrth i'w dealltwriaeth o anghenion y cleient esblygu.
- Mae mudo newydd wedi gweld cymunedau mudol newydd yn ymddangos mewn cyrchfannau nad ydynt yn draddodiadol fel ardaloedd gwledig a maestrefi. Yn y dyfodol efallai y bydd angen canolbwyntio cynlluniau integreiddio yn yr ardaloedd hyn, trwy gysylltu ardaloedd a sefydliadau cymdeithas sifil gwledig gyda'r rhai mewn ardaloedd trefol, fel bod arfer gorau yn cael ei rannu.
- Gellid datblygu cronfa ddata o arfer gorau gan ddefnyddio dull ariannu torfol lle gallai prosiectau roi eu henghreffftiau eu hunain o arfer gorau. Gallai hyn fod yn sail i ddatblygu prosiectau yn y dyfodol.
- Gellid sicrhau effaith cynaliadwy prosiectau integreiddio trwy gynnwys mudwyr yn y gwaith o gyflawni'r prosiectau. Mae hyn hefyd yn debygol o hwyluso effaith y prosiect. Mewn ymchwil diweddar a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref ar gyfeiriadu diwylliannol, roedd ffoaduriaid yn ymddiried yn sylweddol yn y rhai oedd wedi mynd trwy brofiad tebyg wrth integreiddio mewn gwlad estron. Roedd gweld llwyddiant eraill yn rhoi anogaeth ac ysgogiad i ddal ati trwy'r sialensiau (Y Swyddfa Gartref, 2019a).
- Gallai prosiectau hefyd gynnal datblygiad y cleientiaid ar ôl cymryd rhan trwy fynediad parhaus at ddeunyddiau dysgu ar-lein. Ond, dylid ystyried y rhwystrau y gall ffoaduriaid eu hwynebu wrth gael mynediad at ddeunyddiau o'r fath gan gynnwys diffyg mynediad at dechnoleg fel gliniaduron a ffonau symudol.
- Mae angen mesur y deilliannau integreiddio i ffoaduriaid ar draws meysydd polisi cymdeithasol i ddynodi problemau ac asesu cynnydd dros amser (Phillimore, 2012). Gellid gwneud hyn hefyd ar draws gwledydd:
 - yn cymharu deilliannau yn y rhai sydd â rhaglenni integreiddio a'r rhai heb raglenni; ac
 - yn dynodi'r mathau o raglenni sy'n lleihau'r anghysondeb rhwng deilliannau integreiddio.

Ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei atal gan ddiffyg arolygon integreiddio hydredol wedi eu cysoni yn yr Undeb Ewropeaidd.

- Bydd monitro a gwerthuso effeithiol yn osgoi gwastraffu arian cyhoeddus ar raglenni nad ydynt yn hybu integreiddio effeithiol. Bydd hefyd yn hybu parhau i fireinio ac addasu prosiectau i sicrhau eu bod yn parhau yn effeithiol mewn amgylchiadau sy'n newid.
- Mae angen llawer mwy o waith i gasglu arfer da ac i sicrhau bod prosiectau effeithiol yn gallu cael rhagor o gyllid heb wynebu prosesau gor fiwrocraidd.

Canolbwyntio ar y gymuned

- Mae integreiddio yn broses ddwy ffordd, sydd angen ymdrech gan ffoaduriaid a llywodraethau a chymdeithasau'r gwledydd sy'n eu derbyn. Er bod llywodraethau yn dylunio fframweithiau polisi, mae gan gymdeithas sifil rôl i'w chwarae wrth greu amodau sy'n hybu integreiddio (OECD, 2016; Phillimore a Goodson, 2010).

- Rhoi addysg am realiti mudo a chyswllt wedi ei strwythuro rhwng mwyafrifoedd a lleiafrifoedd:
 - yn dysgu sgiliau cyfathrebu rhyngddiwyllynnol;
 - chwalu chwedlau; ac
 - ymwreiddio mudwyr mewn sefydliadau i geisio eu helpu i addasu eu safbwyntiau fel rhai o'r tu mewn.

Gall y rhain i gyd hyrwyddo integreiddio trwy drawsnewid agweddau cymunedau (Blake *et al.*, 2008; Tŷ'r Cyffredin, 2008).

- Amlygodd Castle (2018) bwysigrwydd addysgu cymunedau i leihau teimladau gwrth-fudwyr, gan awgrymu mwy o gyhoeddusrwydd i agweddau cadarnhaol mudo a ffoaduriaid yn benodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan i Collyer *et al.* (2018) ganfod bod ffoaduriaid yn cofnodi gwahaniaethu mewn lleoliadau sefydliadol a gofod cyhoeddus yn gyffredin, tra bod Cheung a Phillimore (2014; 2016) wedi dangos bod profiadau o hiliaeth yn cael effaith ar ddeilliannau integreiddio mewn iechyd a gwaith.
- Gall amgyffrediad y cyhoedd o integreiddio effeithio ar brofiad y mudwyr. Canfu astudiaeth ddiweddar fod y cyhoedd yn fwyaf tebygol o amgyffred bod mudwyr wedi eu hintegreiddio yn eu cymuned pan allent siarad eu hiaith yn rhugl, pan fyddai ganddynt ffrindiau yn y gymuned sy'n eu derbyn ac yn ymwneud â chymdeithas sifil (Sobolewska, Galandini, a Lessard-Phillips, 2017).

Datblygu arweinwyr mewn cymunedau o ffoaduriaid

- Mae arweinwyr yn ysbrydoli a gallant sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd yn treiddio i lawr ar draws cymunedau. Mae'n debygol y bydd arweinwyr effeithiol yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd ac yn gymysgedd o ddynion a menywod, cenhedloedd, statws gwahanol ac oeddrannau gwahanol.

Cydnabod anghenion gwahanol grwpiau mudol

- Dylid defnyddio dull sy'n cydnabod bod anghenion pawb yn wahanol wrth integreiddio. Mae ar y rhai sy'n anllythrennog neu heb lawer o sgiliau angen cymorth dwys i integreiddio, cymaint â phum mlynedd weithiau. Cyfnodau byrrach o gefnogaeth fydd ar fudwyr â mwy o sgiliau eu hangen i fod yn barod ar gyfer y farchnad lafur. Bydd ar blant heb gydymaith sy'n cyrraedd ar ôl oedran addysg orfodol hefyd angen cefnogaeth arbenigol (OECD, 2016). Ni fydd gan lawer ohonynt fawr o addysg ffurfiol neu ddim a bydd eu diffyg cymwysterau yn arwain at waith heb sgiliau, ac ansicr.
- Bydd angen polisiau sensitif i ryw i sicrhau bod menywod a'u plant yn cael eu hintegreiddio yn llawn. Gallai'r camau i wella eu rhagolygon mewn meysydd polisi cymdeithasol allweddol gynnwys:
 - dosbarthiadau un rhyw i leihau effaith strwythurau teuluol patriarchaidd;
 - darparu gofal plant i wella hygyrchedd (UNHCR, 2013); a
 - mentoriaid i helpu ffoaduriaid benywaidd i ganfod eu ffordd trwy ddiwyllianau sefydliadol newydd yn gyflymach, gan hwyluso mynediad cyflymach at dai, rhwydweithiau cymdeithasol, caffael iaith a gwaith.
- Dylid datblygu polisiau sensitif i ryw hefyd i gefnogi dynion i addasu i gyd-destunau cyfreithiol a chymdeithasol gwahanol. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig o ran integreiddio i'r farchnad lafur, lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod mudwyr gwrywaidd sy'n ceisio 19 pwynt canran yn llai tebygol o fod mewn swyddi proffesiynol/rheoli mewn cymhariaeth â'u cymheiriaid a aned yn y Deyrnas Unedig. I geiswyr lloches benywaidd, mae hyn yn gostwng i 15 pwynt canran (Kone *et al.*, 2019).

- Mae gan fudwyr sy'n cyrraedd yn blant fwy o fynediad at addysg, datblygu iaith a thrwy hynny, gwaith (Capps *et al.*, 2014). Gall ffoaduriaid sy'n cyrraedd yn eu harddegau wynebu anfantais wrth iddynt ymdrechu i gael cymwysterau i adael yr ysgol yn 18 oed. Heb gefnogaeth i geisio cyrraedd y lefel briodol maent mewn perygl o gael gwaith sgiliau isel a'u hallgau yn gymdeithasol (Morrice, Tip, Brown a Collyer, 2019). Gellir gwneud mwy i gefnogi'r grŵp hwn, gweler er enghraifft, Morrice a Sandri (2019). Mae gan fudwyr hŷn lai o gyfle i integreiddio yn llwyddiannus a gallant hyd yn oed fod â llai o gymhelliant i integreiddio. Gellid datblygu ymyraethau penodol i wella deilliannau integreiddio i'r grŵp hwn.
- Gall rhai ffoaduriaid gael eu hatal rhag defnyddio dosbarthiadau Saesneg gan nad oes ganddynt lawer o addysg ffurfiol neu eu bod yn anllythrennog yn eu mamiaith. Mae enghreifftiau o wledydd Ewropeaidd sy'n cynnig cyrsiau llythrennedd a/neu offer arbennig i athrawon ar sut i ddysgu'r rhai sy'n anllythrennog (EMN, 2016).
- Gall anghenion iechyd nad ydynt yn cael sylw atal integreiddio. Canfu Fazelet *al.* (2005) bod ffoaduriaid sydd wedi ailsefydlu tua deng gwaith yn fwy tebygol o ddioddef anhwylder straen ar ôl trawma (PTSD) na phoblogaeth gyffredinol wedi ei chyfateb o ran oedran.
- Mae Charsley a Spencer (2019) yn amlygu nad ffactorau ar lefel yr unigolyn yn unig sy'n effeithio ar integreiddio (e.e. rhyw, oedran, iechyd) ond ffactorau cymdeithasol hefyd fel cyfrifoldebau gofalu, a'r gefnogaeth gymdeithasol a'r cysylltiadau cymdeithasol sydd ar gael. Dylai dulliau wedi eu teilwrio o integreiddio ystyried anghenion yr unigolyn ar lefel gymdeithasol yn ogystal â'r lefel bersonol.
- Wrth gydnabod anghenion grwpiau gwahanol, mae'n bwysig sicrhau bod yr holl ffoaduriaid yn amgyffred bod mynediad at wasanaethau integreiddio yn deg. Mae ffoaduriaid wedi cyfeirio at system 'dwyr haen', lle mae'r rhai ar gynlluniau adsefydlu yn cael triniaeth well (Y Swyddfa Gartref, 2019b). Mae'r gwahaniaeth rhwng y driniaeth i ffoaduriaid sydd wedi eu hadsefydlu a'r rhai nad ydynt ar gynlluniau o'r fath wedi bod yn bryder i ymarferwyr hefyd (IPSOS MORI, 2019).

Angen strategaethau ar y lefel genedlaethol a lleol i hwyluso integreiddio

- Mae'r lefel leol yn allweddol o ran darparu'r amodau ar gyfer integreiddio llwyddiannus. Gall sefydliadau cymunedau ffoaduriaid mudol hyrwyddo integreiddio trwy gyfathrebu gyda'r rhanddeiliaid allweddol a chyfeirio at wasanaethau lleol. Ond mae rôl hefyd i strategaethau integreiddio ffoaduriaid cenedlaethol sy'n sefydlu gweledigaeth glir am:
 - hawliau a chyfrifoldebau ffoaduriaid;
 - sut y gall integreiddio gael ei gyflawni; a
 - thargedau priodol (UNHCR, 2017).
- Bydd cynlluniau effeithiol yn seiliedig ar ymgynghori gyda grwpiau cynrychioliadol ar bob lefel, o sefydliadau ffoaduriaid cenedlaethol i sefydliadau llai, lleol yn y gymuned (Phillimore, 2013). Ni ddylid cyfyngu ymgynghoriadau i ffurfio polisïau ar sefydliadau prif-ffrwd homogenaidd, ond dylent hefyd gynnwys sefydliadau y bydd eu hadnoddau a'u hamgylchiadau unigryw yn arwain at anghenion a sialensiau penodol.

Strategaethau sy'n hwyluso mynediad grwpiau mudol at y farchnad lafur

- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod integreiddio i'r farchnad lafur yn her sylweddol i fudwyr sy'n ceisio lloches. Mae bwch o 12 pwynt canran yn y gyfradd gyflogaeth rhwng mudwyr sy'n ceisio lloches a phreswylwyr a aned yn y Deyrnas Unedig ar ôl addasu ar gyfer ffactorau fel addysg, rhyw, oedran ac ethnigrwydd. Mae'r bwch hwn yn parhau yn fwy i fudwyr sy'n ceisio lloches nag i fudwyr eraill (er enghraifft, mudwyr economaidd) (Kone *et al.*, 2019).
- Hyd yn oed pan fyddant mewn gwaith, mae dadansoddiad diweddar o ddata yn awgrymu bod mudwyr sy'n ceisio lloches mewn sefyllfa lawer gwaeth na phreswylwyr a aned yn y Deyrnas Unedig a mudwyr eraill. Mae eu tâl wythnosol 38% yn is a'u henillion wythnosol 55% yn is na phreswylwyr a aned yn y Deyrnas Unedig. Maent hefyd 19 pwynt canran yn llai tebygol o fod mewn swyddi proffesiynol neu reoli na'u cymheiriaid a aned yn y Deyrnas Unedig (*ibid.*).
- Felly dylai gwella'r mynediad i waith fod yn ffocws wrth ystyried polisi integreiddio. Mae'r llenyddiaeth yn amlgu nifer o ffyrdd addawol y gall integreiddio yn y farchnad lafur gael ei gynyddu i fudwyr, yn arbennig y rhai sy'n ceisio lloches.

Mae mynediad cychwynnol cyflym i'r farchnad lafur yn bwysig

- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod mynediad cychwynnol cyflym i'r farchnad lafur yn arwain at well deilliannau cyflogaeth. Hyd at 2000 roedd ceiswyr lloches yn yr Almaen yn cael eu hatal rhag gweithio am gyfnod amhenodol. Newidiwyd y cyfyngiad hwn wedyn i 12 mis. Canfu astudiaeth bod cyfraddau cyflogaeth yn 2005 tua 20% yn is i ffoaduriaid o hen Weriniaeth Iwgoslafia a gyrhaeddodd yn 1999 (ac a oedd yn gorfod aros 13 i 24 mis cyn cael gwaith) mewn cymhariaeth â'r ffoaduriaid hynny a gyrhaeddodd yn 2000 (oedd yn gorfod aros 12 mis cyn cael lle yn y farchnad lafur) (Marbach *et al.*, 2018).
- Mae penderfyniadau cyflym am achosion lloches hefyd yn hwyluso mynediad at waith. Canfu Hainmueller *et al.* (2016) bod y rhai oedd yn aros yn hwy am benderfyniad am loches yn llai tebygol o fod mewn gwaith flwyddyn ar ôl derbyn penderfyniad ar eu hachos na'r rhai a dderbyniodd benderfyniad yn gyflymach.
- Dylai cymwysterau a sgiliau estron gael eu hasesu yn gyflym a'u cydnabod i hwyluso mynediad i'r farchnad lafur (OECD, 2016). Mae peidio â chydabod cymwysterau a phrofiad blaenorol yn golygu mai ychydig iawn o ffoaduriaid sy'n gallu gweithio yn yr un sector ag yr oeddynt yn gweithio cyn cael eu hailsefydlu (Collyer *et al.*, 2018; Phillimore & Goodson, 2006). Pan fydd bylchau ym mhroffil ymgeisydd, gellid defnyddio dulliau eraill o asesu gallu (Houghton a Morrice, 2008). Un dull posibl yw'r asesiad medrusrwydd Jobprofil yn Awstria. Treialwyd y cynllun yn 2015, dilynir asesiad cychwynnol gan gyfweiliad ac mae'r canlyniadau ar gael i'r Gwasanaeth Cyflogi Cyhoeddus i hwyluso naill ai lleoliad ar brentisiaeth neu gynllunio gyrfa pellach (EMN, 2016).

Rhoi ffoaduriaid sydd wedi eu hadsefydlu mewn lleoliadau daearyddol fydd yn hybu cyflogaeth

- Gall y lleoliad lle mae ffoaduriaid yn cael eu hailsefydlu gael effaith ar eu hintegreiddio i'r farchnad lafur. Gall rhoi ffoaduriaid mewn lleoliadau lle mae cyflwr y farchnad lafur yn wael atal eu hintegreiddio, gan arwain at ddiweithdra a dibyniaeth estynedig ar y wladwriaeth (Phillimore a Goodson, 2006). Gall ffoaduriaid sy'n cael eu rhoi mewn ardaloedd mwy gwledig hefyd wynebu sialensiau yn ymwneud â mynediad at drafndiaeth gyhoeddus i ddosbarthiadau iaith a gwaith (Degler a Liebig, 2017). Mae enghreifftiau yn bodoli o wledydd sy'n ceisio cyfateb mudwyr â'r lleoliad mwyaf addas ar sail ffactorau gan gynnwys eu lefel addysg a'u profiad gwaith (OECD, 2016).

Cefnogaeth wedi ei theilwrio yn hwyluso mynediad i'r farchnad lafur

- Gall rhaglenni penodol i hwyluso mynediad ffoaduriaid i'r farchnad lafur gael eu sefydlu. Gall mentora wedi ei deilwrio, cysgodi gwaith a chwmsela wella'r tebygolrwydd y bydd ffoadur yn cael gwaith yn sylweddol (EMN, 2016; Houghton a Morrice, 2008) fel y gall llwybrau cyflogadwyedd. Amlygodd adolygiad o'r dystiolaeth a gynhaliwyd gan Ott (2013) i Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHCR) nifer o 'arferion addawol':
 - cynlluniau gweithredu unigolyddol am gyflogaeth;
 - gwaith allestyn gyda chyflogwyr/y sector preifat;
 - lleoliadau gyda chyflogwyr;
 - cyrsiau galwedigaethol gyda phrofiad gwaith integredig;
 - cymorth i ailgymhwyso;
 - partneriaethau rhwng y cyhoedd, sefydliadau'r llywodraeth a chymdeithas sifil (gan gynnwys sefydliadau anllywodraethol [NGOs]); ac
 - annog micro-fentrau/gwaith gwahanol trwy grantiau a hyfforddiant.
- Gall cynlluniau entrepreneuriaid roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r cyllid addas i ffoaduriaid sefydlu mentrau cymdeithasol, gan gynnig hunangyflogaeth pan na fydd cyfleoedd cyflogedig ar gael (Kone *et al.*, 2019). Yn 2012 adroddodd Swyddfa Adsefydlu Ffoaduriaid yr UDA bod 3,000 o ffoaduriaid wedi cael hyfforddiant a chwmsela, gan arwain at 624 benthyciad busnes yn cyfateb i dros \$5 miliwn gan greu 1,090 o swyddi (Ott, 2013). Ond rhaid cydnabod ac ymdrin â'r hyn sy'n atal hunangyflogaeth. Canfu Collyer *et al.* (2018) mai ychydig o gefnogaeth yr oedd ffoaduriaid yn ei gael i oresgyn problemau fel anhawster i brofi cymwysterau blaenorol; dywedwyd wrthynt nad oedd eu sgiliau iaith yn ddigon da ac y byddai'r gwaith papur yn rhy anodd iddynt. Er gwaethaf hyn, mae ymchwil yn awgrymu, dros gyfnod o amser, bod mudwyr sy'n ceisio lloches yn fwy tebygol o fod yn hunangyflogedig na phreswylwyr a aned yn y Deyrnas Unedig, gan gyrraedd uchafbwynt o 10 pwynt canran yn fwy tebygol ar ôl preswyllo yma am 16 i 20 mlynedd. Gallai ymyraethau polisi geisio harneisio'r dalent entrepreneuriaid ymhlith mudwyr sy'n ceisio lloches (Kone *et al.*, 2019).
- Canfu Kone *et al.* (2019) bod mudwyr sy'n ceisio lloches 17 pwynt canran yn fwy tebygol o ddibynnu ar asiantaethau cyhoeddus (canolfannau gwaith, er enghraifft) i ddod o hyd i waith mewn cymhariaeth â phreswylwyr a aned yn y Deyrnas Unedig. Er gwaethaf eu dibyniaeth eang ar asiantaethau cyhoeddus, roedd mudwyr lloches yn llai tebygol o ddod o hyd i waith gan ddefnyddio'r asiantaethau hyn na phreswylwyr a aned yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn awgrymu y dylid cael pwyslais o'r newydd ar ddulliau eraill o gefnogi integreiddio mudwyr sy'n ceisio lloches i'r farchnad lafur.

Cefnogaeth i gyflogwyr gyflogi mudwyr

- Gall cysylltu cymdeithas sifil a chyflogwyr hwyluso rhannu arfer gorau i integreiddio mudwyr i'r farchnad lafur. Gall hyn fod yn arbennig o fuddiol gan fod cyflogwyr wedi rhoi adroddiadau am sialensiau wrth gyflogi ffoaduriaid o ran:
 - y broses gynefino; a
 - phryderon am ddogfennaeth a'r ofn y bydd ymchwiliadau a chosbau gan y Swyddfa Gartref (Hurstfield *et al.*, 2004).Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd gwybodaeth glir i gyflogwyr. Mae'r enghreifftiau o arferion defnyddiol yn cynnwys canllawiau a gyhoeddwyd ym Mai 2019 (<https://www.unhcr.org/5cc9c7ed4>), sy'n tanlinellu sut y gall cyflogwyr:
 - baratoi ffoaduriaid ar gyfer y farchnad lafur;
 - wneud prosesau recriwtio yn fwy hygyrch; a
 - hyrwyddo cynnydd mewn gyrfau.

Cynhwysir astudiaethau achos o ymyraethau posibl hefyd yn y canllawiau.

Presenoldeb aelodau o'r teulu yn hwyluso integreiddio

- Mae presenoldeb aelodau o'r teulu yn effeithio ar yr ymdeimlad cartrefol a deimlir gan ffoaduriaid (AMMSA, 2017) ac yn hyrwyddo llesiant (UNHCR, 2011). Felly mae defnydd cynyddol o Reoliad Dulyn mewn ffordd sy'n hyrwyddo ailuno teuluoedd felly yn debygol o gael effaith cadarnhaol ar integreiddio.
- Pan na fydd aelodau o'r teulu yn bresennol, mae cysylltiadau rhyngwladol agos gyda theulu a ffrindiau yn ôl gartref yn bwysig i leihau teimladau o straen, pryder ac euogrwydd (Collyer *et al.*, 2018).

Cefnogi iechyd corfforol a seicolegol y mudwyr a lleihau'r amser a dreulir yn y ddalfa

- Gall llesiant seicolegol gwael trwy brofiadau trawmatig atal ffoaduriaid rhag integreiddio, fel y gall iechyd corfforol gwael yn deillio o erledigaeth. Mae'r rhai ag iechyd meddwl gwael â llai o allu yn y Saesneg ac yn llai tebygol o eiriol drostynt eu hunain (Collyer *et al.*, 2018; Cheung a Phillimore, 2014; 2016). Mae mudwyr sy'n ceisio lloches 9 pwynt canran yn fwy tebygol na phreswylwyr a aned yn y Deyrnas Unedig o gofnodi bod ganddynt iechyd gwael sy'n effeithio ar y nifer o oriau y gallant weithio (Kone *et al.*, 2019). Dylai lles ffoaduriaid gael ei asesu a dylid sicrhau bod mynediad at ofal iechyd ar gael. Mae'n bwysig nodi, hyd yn oed gyda hawl gyfreithiol i ddefnyddio gofal iechyd, y dylid rhoi ystyriaeth i rwystrau eraill a all atal mynediad, er enghraifft, sgiliau iaith gwael (OECD, 2016).
- Efallai nad amgylchiadau cyn cyrraedd yn unig fydd yn effeithio ar iechyd ffoaduriaid ond gall amgylchiadau ar ôl cyrraedd hefyd effeithio arnynt fel bod yn unig a chael eu hallgau o'r farchnad lafur (Kone *et al.*, 2019). Dylai hyn gael ei ystyried wrth geisio gwella iechyd mudwyr.
- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cadw ceiswyr lloches yn gaeth yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd cymdeithasol, corfforol a seicolegol (Filges *et al.*, 2016). Gan fod hyn yn debygol o atal integreiddio, gall fod yn fanteisiol i gadwad gael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig ac am gyfnod cyfyngedig wedi ei nodi yn glir.

Beth sydd ddim yn gweithio wrth integreiddio ffoaduriaid?

Diffyg cefnogaeth i sefydliadau cymunedol ffoaduriaid mudol

- Mae prosiectau sy'n chwilio am atebion cyflym neu yn cael eu rhedeg gan sefydliadau heb wybodaeth ymlaen llaw am ffoaduriaid yn llai tebygol o fod yn llwyddiannus na'r rhai sydd â phrofiad (Phillimore, 2012). Gall rhai sefydliadau cymunedol ffoaduriaid mudol fod angen cefnogaeth i gymryd rhan mewn cynlluniau integreiddio oherwydd diffyg profiad mewn polisi ac arferion yn y Deyrnas Unedig (Phillimore a Goodson, 2010).
- Mae gwerthuso prosiectau ar ddiwedd eu hoes yn llai effeithiol na gwerthuso ymlaen llaw a all fod yn sail i ddatblygu'r prosiect. Mae'n debygol y bydd arian yn cael ei wastraffu ar brosiectau sy'n cael effaith bychan iawn trwy reolaeth a gwerthusiad gwael ar y prosiect.

Peidio â chydabod integreiddio fel proses holistaidd a thymor hir

- Nid yw deilliannau cadarnhaol yn un maes o angenrheidrwydd yn arwain at integreiddio tymor hir. Gall mynediad cynnar i waith nad oes angen gwybodaeth o'r Saesneg ynddo, er enghraifft, arwain at gymhathiad tameidiog a gwthio i'r cyrion yn y tymor hir (Collyer *et al.*, 2018).
- Mae'r fframwaith Dangosyddion Integreiddio wedi ei ddiweddarau gan y Swyddfa Gartref (2019c) yn amlygu y dylai integreiddio gael ei weld fel rhywbeth sy'n cwmpasu nifer o ffactorau (aml ddimensiwn) ac yn cynnwys addasiadau gan bawb mewn cymdeithas (aml gyfeiriadol). Mae dulliau integreiddio nad ydynt yn cydnabod hyn yn annhebygol o lwyddo. Adleisir hyn yn Charsley a Spencer (2019), sy'n cynnig y gall prosesau integreiddio ar draws meysydd gwahanol ryngweithio gyda'i gilydd, er nad ydynt bob amser yn cefnogi ei gilydd, ac y gall cynnydd mewn un maes weithio i'r gwrthwyneb. Mae Charsley a Spencer (2019) yn defnyddio enghraifft rhwydweithiau cymdeithasol. Wrth i'r rhain ehangu i fudwyr, gall y cynnydd yn eu hymwybyddiaeth o agweddau gwahaniaethol arwain at elyniaethu a phellhau.

Cyfeiriadau

Affiliation of Multicultural Societies and Service Agencies of BC (AMMSA). (2017) *Integration Outcomes of Resettled Refugees in Canada*. Ar gael ar-lein: https://www.amssa.org/wp-content/uploads/2017/06/Infosheet38_resettled_refugees.pdf (Agorwyd 24 Mai 2019).

Blake, G., Diamond, J., Foot, J., Gidley, B., Mayo, M., Shukra, K. a Yarnit, M. (2008) *Community engagement and community cohesion*. York: Sefydliad Joseph Rowntree.

Capps, R., Newland, K., Fratzke, S., Groves, S., Auclair, G., Fix, M., McHugh, M. (2014) 'Integrating refugees in the United States: The successes and challenges of resettlement in a Global Context', *Statistical Journal of the IAOS*, 31, tt.341-367.

Castle, S. (2018) Cyflwyniad yn yr *International Metropolis Conference*, Sydney, Awstralia, 29 Hydref – 2 Tachwedd 2018.

Charsley, K., a Spencer, S. (2019) 'Understanding integration processes: informing policy and practice', *Policy Report 44*. Ar gael ar-lein: <https://www.bristol.ac.uk/policybristol/policy-briefings/understanding-integration-processes/> (Agorwyd 13 Mehefin 2019).

Cheung, S.Y. a Phillimore, J. (2014) 'Refugees, Social Capital and Labour Market Integration in the UK', *Sociology*, 48 (3), tt.518-536.

Cheung, S. Y., a Phillimore, J. (2016) 'Gender and refugee integration: a quantitative analysis of integration and social policy outcomes', *Journal of Social Policy*, 46 (2), tt.211-230.

Collyer, M., Morrice, L., Tip, L., Brown, R. a Odermatt, E. (2018) *A Long Term Commitment: Integration of Resettled Refugees in the UK*. Ar gael ar-lein: <http://www.sussex.ac.uk/migration/research/integrationcitizenship/refugeeresettlement/reports> (Agorwyd 24 Mai 2019).

Degler, E. a Liebig, T. (2017) *Finding their way. Labour market integration of refugees in Germany*. Organisation for Economic Co-operation and Development. Ar gael ar-lein: <https://www.oecd.org/els/mig/Finding-their-Way-Germany.pdf> (Agorwyd 24 Mai 2019).

EMN (2016). *Integration of beneficiaries of international/humanitarian protection into the labour market: policies and good practices*, European Migration Network. Ar gael ar-lein: https://ec.europa.eu/home-affairs/sites/homeaffairs/files/what-we-do/networks/european_migration_network/reports/docs/emn-studies/emn-studies-00_integration_of_beneficiaries_of_international_protection_eu_2015_en_final.pdf (gorwyd 24 Mai 2019).

Fazel, M., Wheeler, J. a Danesh, J. (2005) 'Prevalence of serious mental disorder in 7,000 refugees resettled in western countries: a systematic review', *The Lancet*, 365 (9467), tt.1309-1314.

Filges, T., Montgomery, E. a Kastrup, M. (2016) 'The Impact of Detention on the Health of Asylum Seekers: A Systematic Review', *Research on Social Work Practice*, 28 (4), tt.399-414.

Hart, J. a Johnson, F. M. (2016) *Thinking about and Measuring Integration in Light of the Syria Vulnerable Person Resettlement Programme*. Papur drafft heb ei gyhoeddi.

Hainmueller, J., Hangartner, D. a Lawrence, D. (2016) 'When lives are put on hold: Lengthy asylum processes decrease employment among refugees', *Science Advances*, 2 (8).

Y Swyddfa Gartref (2019a) *Review of Cultural Orientation*. Heb ei gyhoeddi hyd yn hyn.

Y Swyddfa Gartref (2019b) *Summary of Migrants' views: barriers to integration and suggestions for moving forward*. Heb ei gyhoeddi.

Y Swyddfa Gartref (2019c). *Fframwaith Dangosyddion Integreiddio y Swyddfa Gartref*. Ar gael ar-lein: <https://www.gov.uk/government/publications/home-office-indicators-of-integration-framework-2019> (Agorwyd 13 Mehefin 2019).

Houghton, A-M. a Morrice, L. (2008) *Refugees, asylum-seekers and migrants: steps on the education and employment progression journey*. Caerlŷr: National Institute of Adult Continuing Education. Ar gael ar-lein: <http://sro.sussex.ac.uk/60506/> (Agorwyd 24 Mai 2019).

Tŷ'r Cyffredin (2008) *Community Cohesion and Migration*, Communities and Local Government Committee. Ar gael ar-lein: <https://publications.parliament.uk/pa/cm200708/cmselect/cmcomloc/369/369i.pdf> (Agorwyd 24 Mai 2019).

Hurstfield, J., Pearson, R., Hooker, H., Ritchie, H. a Sinclair, A. (2004) *Employing refugees: Some organisations' experiences*. Employability Forum. Ar gael ar-lein: <https://www.employment-studies.co.uk/system/files/resources/files/01550ef.pdf> (Agorwyd 24 Mai 2019).

IPSOS MORI (2019) *VPRS and VCRS Evaluation (First Report)*. Heb ei gyhoeddi.

Kone, Z., Ruiz, I. a Vargas-Silva, C. (2019) *Refugees and the UK Labour Market*. Ar gael ar-lein: <https://ec.europa.eu/migrant-integration/?action=media.download&uuid=4649E7B1-E0DD-C510-A37CBD69748271D3> (Agorwyd 24 Mai 2019).

Marbach, M., Hainmueller, J. a Hangartner, D. (2018) 'The long-term impact of employment bans on the economic integration of refugees', *Science Advances*, 4 (9).

Morrice, L. a Sandri E. (2018). Improving education for refugee background students: Research findings. Centre for International Education, University of Sussex. Ar gael ar-lein: <http://www.sussex.ac.uk/cie/projects/completed> (Agorwyd 24 Mai 2019).

Morrice, L., Tip, L. K., Brown, R. a Collyer, M. (2019). Resettled refugee youth and education: aspiration and reality. *Journal of Youth Studies*. <https://doi.org/10.1080/13676261.2019.1612047>

Morrice, L., Tip, L.K., Collyer, M. a Brown, R. (2019). 'You can't have a good integration when you don't have a good communication': English language learning among resettled refugees in the UK. *Journal of Refugee Studies*. <https://doi.org/10.1093/jrs/fez023> (Agorwyd 24 Mai 2019).

Morrice, L., Tip, L. K., Collyer, M. a Brown, R. (2017) *English language for resettled refugees*. Policy Brief. Ar gael ar-lein: <http://blogs.sussex.ac.uk/policy-engagement/files/2017/06/Policy-Brief-English-Language-for-Resettled-Refugees.pdf> (Agorwyd 24 Mai 2019).

Mullins, D. (2008) *Accommodate – Better Together. The final Accommodate evaluation report*. Llundain: Housing Associations' Charitable Trust (HACT).

OECD (2016) *Making Integration Work: Refugees and others in need of protection*, Organisation for Economic Co-operation and Development. Ar gael ar-lein: <http://www.oecd.org/migration/making-integration-work-humanitarian-migrants-9789264251236-en.htm> (Agorwyd 24 Mai 2019).

Ott, E. (2013) *The labour market integration of resettled refugees*. Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid. Ar gael ar-lein: <https://www.unhcr.org/5273a9e89.pdf> (Agorwyd 24 Mai 2019).

Phillimore, J. (2012) 'Implementing integration in the UK; lessons for theory, policy and practice', *Policy and Politics*, 40 (4), tt.525-545.

Phillimore, J. (2013) 'Housing, home and neighbourhood in the era of superdiversity: some lessons from the West Midlands', *Housing Studies*, 28 (5), tt.682-700.

Phillimore, J. a Goodson L. (2006) 'Problem or Opportunity? Asylum Seekers, Refugees, Employment and Social Exclusion in Deprived Urban Areas', *Urban Studies*, 43 (10), tt.1-22.

Phillimore, J. a Goodson, L. (2010) 'Failing to adapt: institutional barriers to RCOs engagement in transformation of social welfare', *Social Policy and Society*, 9 (2), tt.1-12.

Sobolewska, M., Galandini, S., a Lessard-Phillips, L. (2017). 'The public view of immigrant integration: multidimensional and consensual. Evidence from survey experiments in the UK and the Netherlands', *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 43 (1).

Spicer, N. (2008) 'Places of Exclusion and Inclusion: Asylum and Refugee Experiences of Neighbourhoods in the UK', *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 34 (3), tt.491-510.

Tip, L. K., Brown, R., Morrice, L., Collyer, M. ac Easterbrook, M. J. (2018) 'Improving refugee well-being with better language skills and more intergroup contact', *Social Psychological and Personality Science*, 10 (2), tt.144-151.

UNHCR (2002) *Refugee Resettlement: An International Handbook to Guide Reception and Integration*, Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid. Ar gael ar-lein: <https://www.unhcr.org/uk/protection/resettlement/4a2cfe336/refugee-resettlement-international-handbook-guide-reception-integration.html> (Agorwyd 24 Mai 2019).

UNHCR (2011) *UNHCR Resettlement Handbook*, Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid. Ar gael ar-lein: <http://www.unhcr.org/46f7c0ee2.html> (Agorwyd 24 Mai 2019).

UNHCR (2013) *A New Beginning: Refugee Integration in Europe*, Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid. Ar gael ar-lein: <http://www.refworld.org/pdfid/522980604.pdf> (Agorwyd 24 Mai 2019).

UNHCR (2017) *Towards Integration: The Syrian Vulnerable Persons Resettlement Scheme in the United Kingdom*, Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid. Ar gael ar-lein: <http://www.unhcr.org/uk/protection/basic/5a0ae9e84/towards-integration-the-syrian-vulnerable-persons-resettlement-scheme-in.html> (Agorwyd 24 Mai 2019).

Darllen pellach

Cheung, S. a Phillimore, J. (2013) *Social networks, social capital and refugee integration*. Llundain: Nuffield Foundation. Ar gael ar-lein: <https://www.nuffieldfoundation.org/sites/default/files/files/Phillimore%20Refugree%20Integration%20Report.pdf> (Agorwyd 24 Mai 2019).

Phillimore, J. (2014) *Local and experiential aspects of migrant integration*. KING Working Paper. Milan: ISMU Foundation.

Phillimore, J., Humphris, R. a Khan, K. (2017) 'Reciprocity for new migrant integration: resource conservation, investment and exchange', *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 44 (2), tt.215-232.